Rhan A – Cyd-destun

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Deddfwriaeth
- Newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth

3 Y fframwaith etholiadol
- Sut y gelwir etholiad cyffredinol Seneddol y DU
- Etholaethau Seneddol y DU

4 Rolau a chyfrifoldebau
- Y Swyddog Cofrestru Etholiadol
- Y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol

5 Rôl sefydliadau eraill
- Y Comisiwn Etholiadol
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Yr Uned Hawliadau Etholiadau
- Y Post Brenhinol

Atodiad – Adnoddau
- Manylion cyswllt ar gyfer archebu ffurflenni a thaflenni'r Comisiwn Etholiadol

1 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y canllawiau hyn yw cynorthwyo Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gyda'r arfer a'r weithdrefn o gynnal etholiad cyffredinol Seneddol y DU ym Mhrydain Fawr.

1.2 Ni fwriedir y canllawiau hyn fel canllaw cynhwysfawr i'r gyfraith etholiadol berthnasol, ac ni all unrhyw ddatganiad o farn gan y Comisiwn Etholiadol newid cymhwyso unrhyw ddeddfwriaeth i unrhyw achos penodol. Rhaid i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol), Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u hymgynghorwyr cyfreithiol eu hunain ddod i gasgliadau yn seiliedig ar fanylion unrhyw achos penodol. Er bod gan y Comisiwn bŵer statudol i ddarparu cyngor, mae cwestiynau ynghylch dehongliad terfynol y gyfraith yn fater i'r llysoedd yn y pen draw. Byddai llys yn talu sylw dyledus i unrhyw ganllawiau a ddarparwyd gan y Comisiwn.

1.3 Mae angen darllen y canllawiau hyn yn bennaf ochr yn ochr â'r canlynol:

- Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001
- Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009

1.4 Mae'r canllawiau yn cwmpasu:

- **gofynion deddfwriaethol** – canllaw i'r hyn y mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ei wneud, mewn perthynas â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol, yn cynnwys deddfwriaeth newydd
- **cyngor ymarferol** – yr hyn y dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ei wneud, i sicrhau cysondeb ac arfer da
- **gwybodaeth** – gwybodaeth gyd-destunol a chefndir lle nad oes angen gweithredu

1.5 Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu cyfraith ac arfer etholiadol ym Mhrydain Fawr yn unig. Nid yw'n cwmpasu etholiadau cyffredinol Seneddol y DU yng Ngogledd Iwerddon.

1.6 Mae posibilrwydd parhaus y bydd etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn cael ei gyfuno ag etholiadau eraill. Rhoddir canllawiau llawn yn Rhan E, 'Cyfuno pleidleisiau'; fodd bynnag, drwy gydol yr arweiniad, mae blychau yn amlygu materion cyfuno penodol wedi'u cynnwys ochr yn ochr â'r testun perthnasol.

2 Deddfwriaeth

2.1 Dangosir y ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer etholiadau cyffredinol Seneddol y DU yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Deddfwriaeth berthnasol

Teitl llawn	Talfyriad	Crynodeb
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981	RPA 1981	Mae'r Ddeddf hon yn atal carcharorion penodol rhag sefyll mewn etholiad.
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd)	RPA 1983	Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i'r etholfraint a'i weithredu, cynnal etholiadau cyffredinol Seneddol y DU a'r ymgyrch etholiadol.
Atodlen 1 RPA 1983: Rheolau Etholiad Seneddol	PER	Mae'r Atodlen hon yn nodi'r rheolau sy'n llywodraethu cynnal etholiadau cyffredinol Seneddol y DU.
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (Atodlen 4)	RPA 2000	Mae'r Atodlen hon yn cwmpasu'n benodol y gofynion ar gyfer pleidleisio absennol.
Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (fel y'i diwygiwyd)	PPERA	Mae'r Ddeddf hon, a sefydlodd y Comisiwn Etholiadol, yn cwmpasu cofrestru pleidiau gwleidyddol, a threuliau ymgyrchu ac etholiadau.
Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001 (fel y'i diwygiwyd)	RPR 2001	Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â meysydd fel cofrestru etholiadol a phleidleisio absennol.

Tabl 1 (parhad.): Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006	EAA	Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r gofrestr etholwyr, sefyll mewn etholiad, gweinyddu a chynnal etholiadau, rheoleiddio pleidiau gwleidyddol ac annog cyfranogiad mewn etholiadau.
Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009	PPEA	Mae'r Ddeddf hon yn diwygio deddfwriaeth flaenorol, yn cynnwys newid cofrestru etholiadol ar gyfer etholiadau yn ystod y canfasio ac yn caniatáu ymgeiswyr i dynnu eu cyfeiriadau llawn oddi ar bapurau pleidleisio.

2.2 Dylid darllen yr arweiniad mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd ati yn y tabl uchod ac unrhyw ddeddfwriaeth arall y mae'n cyfeirio ati. Er enghraifft, o fewn RPA 1983 mae cyfeiriad at Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 mewn perthynas â diffiniad 'darparwr gwasanaeth hollgynhwysfawr'.

2.3 Bydd yr holl gyfeiriadau i'r darpariaethau perthnasol o ddeddfwriaeth etholiadol a wneir drwy'r llawlyfr yn cael eu cynnwys mewn troednodiadau, gan ddefnyddio'r talfyriadau a ddangosir yn y tabl uchod.

Newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth

2.4 Gwaeth y PPEA rai newidiadau ychwanegol i etholiad cyffredinol Seneddol diwethaf y DU:

- Os yw'r etholiad cyffredinol yn ystod y cyfnod canfasio, gellir defnyddio ffurflenni canfasio wedi'u cwblhau i ychwanegu unrhyw etholwr newydd i'r gofrestr mewn pryd i bleidleisio os y'u derbynnir erbyn yr unfed diwrnod ar ddeg cyn y bleidlais.
- Rhaid i ymgeiswyr nawr gwblhau ffurflen newydd fel rhan o'u henwebiad, sef ffurflen cyfeiriad cartref.
- Mae'r ffurflen cyfeiriad cartref yn rhoi'r dewis i ymgeisydd ynghylch cyhoeddi eu cyfeiriad cartref neu enw'r etholaeth Seneddol y DU lle maent yn byw yn unig ar y datganiad o bersonau a enwebwyd a'r papurau pleidleisio.

2.5 Dyma etholiad cyffredinol Seneddol cyntaf y DU i'w gynnal o dan y rheolau newydd yn dilyn ymddeddfiad yr EAA a'r PPEA. Mae'r bwysig nodi bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn adolygu'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth hyn ar gyfer pob agwedd ar yr etholiad fel eu bod yn cynnal eu hetholiad yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

3 Y fframwaith etholiadol

Sut y gelwir etholiad cyffredinol Seneddol y DU

Cyflwyno'r gwrit

Nid oes dyddiad penodedig ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU a gellir galw un ar unrhyw adeg, gydag isafswm o 17 diwrnod gwaith o'r cyhoeddiad i ddiwrnod y pleidleisio.

3.1 Mae'r broses etholiadol yn dechrau gyda'r brenin neu'r frenhines yn diddymu'r Senedd, fel arfer yn dilyn cyngor y Prif Weinidog. Bydd hyn yn derbyn sylw sylweddol gan asiantaethau newyddion ac efallai bydd y Prif Weinidog yn cyhoeddi ei fod yn bwriadu dechrau'r broses ar ddyddiad penodol ymlaen llaw.

3.2 Anfonir gwrit cyfreithiol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sy'n ei wneud yn ofynnol cynnal yr etholiad.

Dosbarthu'r gwrit

3.3 Dosbarthir y gwrit i'r Swyddog Canlyniadau yn ôl teitl, ac nid yn ôl enw.[1] Bydd Gorchymyn y Cyfrin-gyngor a wneir gan y brenin neu'r frenhines yn nodi sut caiff y gwrit ei ddosbarthu, ai drwy'r post neu gan swyddog a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.[2] Gan amlaf, bydd y Post Brenhinol yn dosbarthu'r gwrit. Bydd y Gorchymyn Cyfrin-gyngor fel arfer yn gofyn i'r Swyddog Canlyniadau roi cyfeiriad ar gyfer y dosbarthiad ac i dderbynneb gael ei roi gan y Swyddog Canlyniadau. Mae'r PER yn caniatáu ar gyfer dosbarthu i unrhyw unigolyn a awdurdodwyd gan y Swyddog Canlyniadau.[3]

3.4 Bydd Clerc y Goron yn cynnal rhestr o Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Canlyniadau Gweithredol yn rheolaidd ynghyd â'u cyfeiriadau. Hyd at 18 mis cyn y disgwylir i etholiad cyffredinol Seneddol y DU gael ei gynnal, bydd Clerc y Goron yn cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i ddiweddaru'r manylion.

3.5 Os oes unrhyw newidiadau i gyfeiriad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am unrhyw reswm, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Clerc am y manylion cywir.

Rhestr gwritiau Seneddol

3.6 Mae'r Post Brenhinol yn cynnal rhestr, a adwaenir fel y rhestr gwritiau Seneddol, sy'n pennu'r swyddog y dylid anfon y gwrit iddynt ym mhob etholaeth, cyfeiriad y swyddog hwnnw a swydd a chyfeiriad swyddog y Post Brenhinol y rhoddwyd y ddyletswydd o sicrhau dosbarthu pob gwrit iddo (gweler eich cyswllt Post Brenhinol). Yng Nghymru a Lloegr, cyflwynir y gwrit

[1] Rheol 3(2), PER.
[2] Rheol 3(3), PER.
[3] Rheol 3(4) a (5), PER.

i'r Swyddog Canlyniadau oni bai bydd y Swyddog Canlyniadau (neu ei ragflaenydd) wedi rhoi rhybudd y dylid anfon y gwrit i'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol.

Mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau i fanylion y person fydd yn derbyn y gwrit (er enghraifft yng Nghymru a Lloegr, pan benderfynir ai'r Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol fydd yn ei dderbyn) yn cael eu cyfathrebu i'r Post Brenhinol ar unwaith.

Derbyn y gwrit

3.7 Ar ôl i'r gwrit gael ei gyhoeddi, bydd y cyswllt Post Brenhinol lleol fel arfer yn cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i wneud apwyntiad ar gyfer y dosbarthiad.

3.8 Pennir bod gwrit wedi'i ddosbarthu i Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) os caiff ei ddosbarthu i berson sydd â gofal gweithredol dros swyddfa y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Waeth bynnag pwy fydd yn derbyn y gwrit, rhaid cwblhau derbynneb a ddarperir gan y Post Brenhinol.[4] Mae hyn yn rhoi'r dyddiad y caiff ei dderbyn ac enw'r swyddog sy'n ei dderbyn. Dylid gwneud copïau o'r gwrit a dylid cadw'r gwreiddiol yn ddiogel.[5]

Cymeradwyo a dychwelyd y gwrit

3.9 Ar ddiwedd y cyfrif ac ar ôl cyhoeddi'r canlyniad, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) arnodi'r gwrit gyda thystysgrif yn rhoi enw'r Aelod Seneddol Etholedig. Gellir gweld hwn ar gefn y gwrit.[6] Rhaid i fanylion yr ymgeisydd llwyddiannus gael eu hysgrifennu yn glir ac yn gywir, a rhaid i'r holl fanylion y gofynnir amdanynt ar y gwrit gael eu cwblhau. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ymgymryd â hyn gydag aelod arall o staff i sicrhau na wneir unrhyw gamgymeriadau.

3.10 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod ganddynt berthynas dda gyda'u cyswllt yn y Post Brenhinol. Dylai hyn gynnwys cyd-gysylltu am dderbyn a dychwelyd y gwrit.[7]

Rhoddir mwy o wybodaeth am arnodi a dychwelyd y gwrit yn Rhan DD, 'Ar ôl cyhoeddi'r canlyniad'.

Etholaethau Seneddol y DU

3.11 Cynhelir etholiadau cyffredinol Seneddol y DU ar ffiniau etholaethau Seneddol y DU. Gall etholaethau gyd-ffinio ag ardaloedd awdurdodau lleol

[4] Rheol 3(3), PER.
[5] Gorchymyn Gwritiau Seneddol 1983.
[6] Rheol 51(1), PER.
[7] Rheol 51(3), PER.

a/neu ardaloedd Swyddogion Cofrestru Etholiadol ond mae llawer yn cynnwys rhan o'r ardal yn unig, tra bod eraill yn croesi ffiniau awdurdodau lleol.

Am fwy o fanylion ar etholaethau traws-ffiniol gweler adran 5, 'Pa faterion sy'n benodol i'r etholiad hwn', yn *Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU* y Comisiwn.

3.12 Mae ffiniau etholaethau Seneddol y DU yn newid o bryd i'w gilydd. Lle mae newidiadau mewn ffiniau wedi'u cymeradwyo ar gyfer etholaeth rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llawn ar gyfer yr etholiad yn dilyn diddymiad y Senedd.

3.13 Mae dwy fath o etholaeth, sirol a bwrdeistrefol (neu 'burgh' yn yr Alban). Etholaethol sirol yw'r rheiny mewn ardaloedd gwledig neu rannol wledig, ac oherwydd eu maint daearyddol mae lefel ychydig yn uwch o dreuliau etholiadol yn perthyn iddynt nag etholaethau bwrdeistrefol. Am fanylion ar fath unrhyw etholaeth benodol cysylltwch â'ch swyddfa Comisiwn Etholiadol datganoledig neu swyddfa yn Lloegr.

Yn y llawlyfr canllawiau hwn defnyddir y term 'bwrdeistref' sy'n cyfateb i 'burgh' i etholaethau yn yr Alban.

4 Rolau a Chyfrifoldebau

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

4.1 Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r swyddog â chyfrifoldeb dros baratoi a chynnal y gofrestr etholwyr a rhestri pleidleiswyr absennol o fewn eu hardal.

Yn Lloegr, mae'n ofynnol ar bob cyngor unedol, dosbarth a bwrdeistref Llundain benodi swyddog y cyngor i fod yn Swyddog Cofrestru Etholiadol.[8] Yn Ninas Llundain, rhaid i'r Cyngor Cyffredin benodi swyddog fel y Swyddog Cofrestru Etholiadol.[9]

Yng Nghymru, penodir y Swyddog Cofrestru Etholiadol gan y cyngor sir neu fwrdeistref sirol. Rhaid i'r person a benodir fod yn swyddog presennol gyda'r cyngor.[10]

Yn yr Alban, rhaid penodi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gan yr awdurdod lleol. Rhaid i'r person a benodir fod naill ai yn swyddog y cyngor hwnnw neu gyngor ffiniol, neu gall fod yn swyddog a benodir gan gyfuniad o awdurdodau lleol.[11]

4.2 Mewn llawer o achosion y Swyddog Cofrestru Etholiadol fydd yr un person â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Fodd bynnag, mewn mannau eraill nid dyma'r sefyllfa oherwydd bod y ddwy swydd yn gyfreithiol wahanol, fel yn rhan fwyaf yr Alban, neu oherwydd bod ffin etholaethol Seneddol y DU yn croesi i mewn i ddwy ardal Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

[8] Adran 8 (2)(a), RPA 1983.
[9] Adran 8 (2)(b), RPA 1983.
[10] Adran 8 (2A), RPA 1983.
[11] Adran 8 (3), RPA 1983.

Y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Swyddog Canlyniadau yn ei hanfod yn arweinydd mewn enw nad yw'n cymryd rhan weithredol mewn gwirionedd mewn rhedeg yr etholiad. Y Swyddog Canlyniadau Gweithredol sy'n cynnal holl ddyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau ac eithrio nifer cyfyngedig o swyddogaethau y gallai'r Swyddog Canlyniadau eu neilltuo iddyn nhw'u hunain yn ysgrifenedig.

Mewn etholaeth fwrdeistref o fewn dosbarth, y maer neu gadeirydd yr awdurdod lleol yw'r Swyddog Canlyniadau. Mewn etholaeth sirol, y Swyddog Canlyniadau yw Siryf y Sir. Mewn ardaloedd lle mae'r etholaeth yn gorgyffwrdd â ffiniau sirol neu ddosbarth, dynodir y Swyddog Canlyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yr unig ddyletswyddau y gellir eu neilltuo a'u hymgymryd gan y Swyddog Canlyniadau yng Nghymru a Lloegr yw:[12]

- dyletswyddau mewn cysylltiad â derbyn y gwrit
- dyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi'r canlyniad

Os bydd unrhyw un neu'r ddau o'r dyletswyddau hyn yn cael eu neilltuo, rhaid gwneud hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol erbyn y diwrnod ar ôl derbyn y gwrit (nid oes ffurflen ragnodedig ar gyfer hyn).[13] Os na dderbyniwyd hysbysiad erbyn yr amser hynny, ni all y Swyddog Canlyniadau yng Nghymru a Lloegr dderbyn y gwrit na chyhoeddi'r canlyniad.

Y Swyddog Canlyniadau Gweithredol sy'n bersonol gyfrifol am gynnal yr etholiad. Gallant benodi Dirprwyon â phwerau llawn neu benodol i'w cynorthwyo.

Penodi Swyddog Canlyniadau Gweithredol

Mae'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol yn Swyddog Cofrestru Etholiadol a benodir fel a ganlyn:

- Mewn etholaeth yn Lloegr lle cadeirydd cyngor dosbarth neu faer bwrdeistref Llundain yw'r Swyddog Canlyniadau (drwy rinwedd Adran 24(1) yr RPA 1983), y Swyddog Cofrestru Etholiadol a benodwyd gan y cyngor hwnnw yw'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol.

[12] Adran 28(2), RPA 1983.
[13] Adran 28(3), RPA 1983.

- Mewn etholaeth yng Nghymru lle cadeirydd cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yw'r Swyddog Canlyniadau drwy rinwedd Adran 24(1) yr RPA 1983, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 68 Atodlen 16 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, y Swyddog Cofrestru Etholiadol a benodwyd gan y cyngor hwnnw yw'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol.
- Yn achos unrhyw etholaeth arall yng Nghymru a Lloegr nas cwmpaswyd uchod, y Swyddog Canlyniadau Gweithredol yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a ddynodwyd gan orchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn yr Alban, y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU yw'r un person a benodwyd yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr yn yr awdurdod lleol lle y lleolir yr etholaeth. Lle mae etholaeth yn cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn cyfarwyddo pa Swyddog Canlyniadau awdurdod lleol fydd yn cyflawni'r swyddogaeth.

Yn yr Alban, nid oes swydd Swyddog Canlyniadau Gweithredol. Yn hytrach, gweinyddir yr etholiad gan y Swyddog Canlyniadau. Y Swyddog Canlyniadau yn yr achos hwn yw uwch swyddog yr awdurdod lleol fel arfer sydd â rheolaeth weithredol dros yr etholiad ac sy'n bersonol gyfrifol amdano. Gallant benodi Dirprwyon gyda phwerau llawn neu benodol i'w cynorthwyo.

Ym mwyafrif yr achosion, y Swyddog Canlyniadau yw prif weithredwr y cyngor neu'r awdurdod lleol, er bod sawl eithriad i hyn.

At ddibenion y canllawiau hyn, dylai'r term 'Dirprwy' (Deputy) gael ei ddarllen fel 'Dirprwy' (Depute) ar gyfer etholiadau yn yr Alban.

At ddibenion y canllawiau hyn, bydd 'Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)' yn cyfeirio at y dyletswyddau a ymgymerir fel arfer gan y Swyddog Canlyniadau Gweithredol yng Nghymru a Lloegr, a gan y Swyddog Canlyniadau yn yr Alban.

4.3 Gall Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benodi Dirprwyon i ymgymryd â'i holl ddyletswyddau neu rai ohonynt. Nid oes gofyniad statudol ynghylch y cymhwyster sy'n ofynnol gan Ddirprwy Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

4.4 Mae Dirprwy Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gyfrifol, yn yr un ffordd â Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), am dorri dyletswydd swyddogol.

Cyflawni dyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

4.5 Mae dyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar wahân i'w dyletswyddau fel swyddog llywodraeth leol. Mae hyn yn dilyn o Adran 27(1)

yr RPA 1983, sy'n golygu bod swydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gwbl ar wahân i'r swydd drwy ei rhinwedd y maent wedi dod yn Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

4.6 Mae'r ddarpariaeth yn pwysleisio annibyniaeth y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU rhag eu hawdurdod lleol. Maent yn uniongyrchol atebol i'r system llysoedd fel deilydd swydd statudol annibynnol.

Torri dyletswydd statudol

4.7 Os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), heb achos rhesymol, yn euog o unrhyw weithred neu hepgoriad sy'n torri eu dyletswydd statudol maent yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na £5,000.[14] Mae Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), mewn perthynas ag unrhyw dorri dyletswydd swyddogol, yn agored i'r ddirwy a orfodir gan yr adran honno yn unig. Ni fydd unrhyw weithredu am iawndal yn erbyn y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) na'u staff mewn perthynas â thorri dyletswyddau statudol.[15]

4.8 Mae gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) y pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol y maent wedi'u gwneud, neu y mae Swyddog Cofrestru Etholiadol, Swyddog Llywyddu, person sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ac unrhyw Ddirprwy neu gynorthwyydd awdurdodedig unrhyw un o'r uchod wedi'u gwneud.[16] Lle mae Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cywiro gweithred neu hepgoriad drwy ddefnyddio'r pŵer hwn, ni fyddant yn euog o drosedd o dorri dyletswydd statudol, ac eithrio lle y gwneir euogfarn am doriad o'r fath cyn i'r weithred neu'r hepgoriad gael ei gywiro'n llawn.[17]

Penodi Swyddog Llywyddu a Chlercod Pleidleisio

4.9 Mae'n ofynnol ar y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benodi a thalu Swyddog Llywyddu a chynifer o Glercod Pleidleisio a allai fod yn angenrheidiol i fod yn bresennol ym mhob gorsaf bleidleisio.[18] Mae Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio yn agored i'w cael yn euog o drosedd os ceir eu bod, heb achos rhesymol, wedi torri dyletswydd swyddogol.[19]

Gweler *Hanfodion rheoli etholiad yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU* y Comisiwn am ganllawiau ar ymgymryd â dyletswyddau Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn llwyddiannus.

[14] Adran 63(1), RPA 1983.
[15] Adran 63(2), RPA 1983.
[16] Adran 46, EAA.
[17] Adran 63(5), RPA 1983.
[18] Rheol 26, PER.
[19] Adran 63(3), RPA 1983.

5 Rôl sefydliadau eraill

Y Comisiwn Etholiadol

Cefndir

5.1 Corff annibynnol yw'r Comisiwn Etholiadol a sefydlwyd gan Senedd y DU ym mis Tachwedd 2000. Mae'r Comisiwn yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd y DU drwy bwyllgor wedi'i gadeirio gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin, a adwaenir fel Pwyllgor y Llefarydd.

Swyddogaethau statudol

5.2 Mae gan y Comisiwn nifer o swyddogaethau a phwerau statudol mewn perthynas ag etholiadau, a nodir y rhain yn y PPERA. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gosod a chyhoeddi safonau perfformiad ar gyfer gwasanaethau etholiadol a chasglu gwybodaeth ar gostau gwasanaethau etholiadol gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif refferendwm[20]
- bod yn bresennol mewn gweithrediadau etholiad penodol[21]
- paratoi a chyhoeddi Cod ymarfer ar bresenoldeb mewn etholiadau cynrychiolwyr y Comisiwn, arsylwyr achrededig ac aelodau enwebedig sefydliadau achrededig, a rheoli cynllun ar gyfer achredu arsylwyr etholiadol[22]
- hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o faterion etholiadol[23]
- cyhoeddi adroddiadau ar weinyddu etholiadau a refferenda[24]
- cynnal adolygiadau o'r gyfraith ac arfer mewn perthynas ag etholiadau a refferenda[25]
- rhoi cyngor a chymorth i'r rheiny sy'n ymwneud â'r broses etholiadol, yn cynnwys pleidiau gwleidyddol a gweinyddwyr etholiadol[26]
- Llywodraeth y DU yn ymgynghori â'r Comisiwn ar gynigion i ddiwygio cyfraith etholiadol[27]
- ymgynghorir â'r Comisiwn ar ddyrannu darllediadau gwleidyddol[28]
- cynnal, monitro a gwneud ar gael er rhesymau tryloywder gofrestr o bleidiau gwleidyddol, a chofrestru disgrifiadau pleidiau gwleidyddol lle mae ymgeiswyr yn dymuno cynnig ymgeiswyr sy'n sefyll o dan enw'r blaid neu ddisgrifiad ac eithrio 'Annibynnol' ar y papur pleidleisio[29]

[20] Adrannau 9A–9C, PPERA, fel y'u mewnosodwyd gan Adran 67, EAA.
[21] Adran 6A, PPERA, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 29, EAA.
[22] Adrannau 6C, 6D a 6F, PPERA, fel y'u mewnosodwyd gan Adran 29, EAA.
[23] Adran 13, PPERA.
[24] Adran 5, PPERA.
[25] Adran 6, PPERA.
[26] Adran 10, PPERA.
[27] Adran 7, PPERA.
[28] Adran 11, PPERA.
[29] Adrannau 23, 28, 28A a 28B, PPERA.

- cynnal, adolygu a chyhoeddi er rhesymau tryloywder gofrestr o roddion a wnaed i bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac eraill a reoleiddiwyd gan y ddeddfwriaeth [30]
- adolygu a chyhoeddi datganiadau cyfrifon blynyddol pleidiau gwleidyddol[31]
- adolygu a chyhoeddi ffurflenni gwariant ymgyrchoedd yr eir iddo gan bleidiau gwleidyddol a thrydydd partïon cydnabyddedig mewn perthynas â'u hymgyrch etholiadol[32]
- adolygu ffurflenni rhoddion a benthyciadau i, a'r gwariant gan ac ar ran, ymgeiswyr a'u hasiantau[33]
- derbyn gan Swyddogion Canlyniadau gopïau o ffurflenni treuliau etholiadau ymgeiswyr[34]

Darparu cyngor

5.3 Mae Adran 10 PPERA yn caniatáu i'r Comisiwn ddarparu cyngor a chymorth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a phleidiau gwleidyddol. Mae'r Comisiwn yn gwneud hyn drwy gyflwyno canllawiau, patrymluniau ac adnoddau arlein. Mae'r Comisiwn yn darparu gwasanaeth ymholiadau, briffiadau a seminarau hefyd ar weinyddiaeth etholiadol ac yn cwrdd å Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a'u staff i drafod materion penodol. Er bod gan y Comisiwn bŵer statudol i ddarparu cyngor, mae cwestiynau ynghylch dehongliad terfynol y gyfraith yn fater i'r llysoedd yn y pen draw. Byddai llys yn talu'r sylw dyledus i unrhyw ganllawiau a ddarperir gan y Comisiwn.

Cysylltiadau

Swyddfeydd datganoledig a swyddfeydd Lloegr
5.4 Dylai'r pwynt cyswllt cyntaf fod yn naill ai swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru neu'r Alban neu swyddfa ranbarthol y Comisiwn yn Lloegr sy'n cwmpasu ardal etholaethol y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), fel y bo'n briodol.

Swyddfa Cymru
Kay Jenkins
Ffôn: 029 2034 6800
Ebost: kjenkins@electoralcommission.org.uk

Swyddfa'r Alban
David Freeland
Ffôn: 0131 225 0208
Ebost: dfreeland@electoralcommission.org.uk

[30] Adran 69, PPERA.
[31] Adran 46, PPERA.
[32] Adrannau 84 a 145, PPERA.
[33] Adran 145, PPERA.
[34] Adran 87A, RPA 1983.

Swyddfa Llundain
Peter Dawson
Ffôn: 020 7271 0689
Ebost: pdawson@electoralcommission.org.uk

Swyddfa Gogledd Lloegr
Y Gogledd Ddwyrain a Swydd Efrog a'r Humber
Sarah Hopson
Ffôn: 01904 567994
Ebost: shopson@electoralcommission.org.uk

Y Gogledd Orllewin
Sandra Hardy
Ffôn: 01904 567993
Ebost: shardy@electoralcommission.org.uk

Swyddfa Canolbarth Lloegr
Gail Emmerson
Ffôn: 024 7682 0092
Ebost: gemmerson@electoralcommission.org.uk

Swyddfa'r Dwyrain a'r De Ddwyrain
John Pollard
Ffôn: 020 7271 0660
Ebost: jpollard@electoralcommission.org.uk

James Steele
Ffôn: 020 7271 0600
Ebost: jsteele@electoralcommission.org.uk

Swyddfa'r De Orllewin
Elizabeth Gorst
Ffôn: 01392 314616
Ebost: egorst@electoralcommission.org.uk

5.5 Am ganllawiau neu gyngor ar ymdrin â materion o gamymddygiad etholiadol, twyll a materion hygrededd cysylltiedig, cysylltwch â:

Richard Jordan
Uwch Ymgynghorydd (Hygrededd Etholiadol)
Ffôn: 020 7271 0562
Ebost: rjordan@electoralcommission.org.uk

Cofrestru pleidiau gwleidyddol

5.6 Mae PPERA yn ei wneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol er mwyn cyflwyno ymgeiswyr mewn etholiad.[35] Gall pleidiau hefyd gofrestru hyd at 12 disgrifiad ar gyfer eu hymgeiswyr

[35] Adran 22, PPERA.

gyda'r Comisiwn. [36] Gall ymgeiswyr ymladd etholiad cyffredinol Seneddol y DU fel ymgeisydd Annibynnol, ac nid oes rhaid iddynt fod yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig, er mewn amgylchiadau o'r fath gall yr ymgeisydd ddefnyddio'r disgrifiad 'Annibynnol' yn unig, neu ddefnyddio dim disgrifiad ar y papur pleidleisio.

5.7 Am gyngor ar gofrestru pleidiau a phleidiau gwleidyddol yn Lloegr cysylltwch â:

Cyllid Pleidiau ac Etholiadau
Ffôn: 020 7271 0616
Ebost: pef@electoralcommission.org.uk

Yng Nghymru:

David Beacock
Ffôn: 029 2034 6806
Ebost: dbeacock@electoralcommission.org.uk

Yn yr Alban:

Mark Nicholls
Ffôn: 0131 225 0211
Ebost: mnicholls@electoralcommission.org.uk

Gellir cael canllawiau'r Comisiwn ar gofrestru pleidiau gwleidyddol ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk neu drwy ffonio 020 7271 0616.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

5.8 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yw adran y llywodraeth ganolog â chyfrifoldeb dros y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau cyffredinol Seneddol y DU, etholiadau Senedd Ewrop a refferenda cenedlaethol, yn cynnwys yr etholfraint, cynnal a chyllido. Mae gan yr MoJ gyfrifoldeb hefyd dros bolisi ar gynnal etholiadau llywodraeth leol a refferenda maerol a llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr a'r holl faterion a gwmpesir gan PPERA. Mae'r rhain yn cynnwys materion generig sy'n gysylltiedig â refferenda cenedlaethol a rhanbarthol, cofrestru pleidiau gwleidyddol, rheolau ar roddion i bleidiau gwleidyddol a rhoddion gan drydydd partïon.

5.9 Yr Adran Etholiadau a Democratiaeth yw'r rhan o'r MoJ sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â chynnal etholiadau. Mae gan yr adran bedwar tîm ar hyn o bryd: Ffiniau a Chynnal Etholiadau, Cofrestru ac Etholfraint, Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda a'r Rhaglen Cofrestru Etholiadol.

5.10 Mae gan y gangen Ffiniau a Chynnal Etholiadau gyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi a chyfraith ar gynnal etholiadau cyffredinol Seneddol y DU, Senedd

[36] Adran 28A, y mewnosodwyd i mewn i PPERA gan Adran 49, EAA.

Ewrop, Awdurdod Llundain Fwyaf ac etholiadau lleol Cymru a Lloegr, a gellir cysylltu â hwy ar 020 3334 3778.

Gellir gweld mwy o wybodaeth ar yr MoJ yn www.justice.gov.uk.

Uned Hawliadau Etholiadau

Am gyngor ar y broses cyllido etholiadau a gweithdrefnau cysylltiedig yng Nghymru a Lloegr, peidiwch â chysylltu ag Adran Etholiadau a Democratiaeth yr MoJ ond yn hytrach cysylltwch â'r Uned Hawliadau Etholiadau:

Uned Hawliadau Etholiadau
Ffôn: 030 3444 3912

neu ysgrifennwch at:

FSSD/CLAIMS
Department for Communities and Local Government
1/07 Hempstead House
2 Selden Hill
Hemel Hempstead
Hertfordshire HP2 4XN

Ebost: ecu@communities.gsi.gov.uk

Mae Swyddfa'r Alban yn gyfrifol am fonitro'r cyfrifon a gyflwynir gan Swyddogion Canlyniadau yn yr Alban, a allant adennill eu costau mewn perthynas â gwasanaethau a gyflawnir yn gywir neu dreuliau yr eir iddynt yn gywir drwy'r Gorchymyn Ffioedd a Chostau Etholiadau Seneddol y DU.

Am gyngor ar y broses cyllido etholiadau yn yr Alban, cysylltwch â Swyddfa'r Alban yn:

Accounts Payable
Finance Branch
The Scotland Office
1 Melville Crescent
Edinburgh EH3 7HW

Ffôn: 0131 244 9011

Y Post Brenhinol

5.11 Mae'r Post Brenhinol yn cyflawni nifer o swyddogaethau mewn etholiadau a gellir eu hymgysylltu drwy gydol y broses etholiadol. Gellir cael mwy o wybodaeth yn www.royalmail.com/postalvoting.

Atodiad – Adnoddau

Manylion cyswllt ar gyfer archebu ffurflenni a thaflenni'r Comisiwn Etholiadol

Drwy gydol y canllawiau hyn cyfeiriwn at ffurflenni a thaflenni a gynhyrchir gan y Comisiwn ac sydd ar gael gan ein dosbarthwr:

Ffôn: 0845 8500 501
Ffacs: 020 8867 3225
Ebost: ecpublications@ecgroup.co.uk

Am restr gyflawn, ddiweddar o'r holl ffurflenni a thaflenni sydd ar gael i'w harchebu, cyfeiriwch at y deunyddiau ymwybyddiaeth gyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk.